

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Swyddog Cynaliadwyedd Fflŷd a Chyfleusterau

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



DAVID COOIL
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd aChanolbarth Cymru.



- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**



# Teitl y swydd: Swyddog Cynaliadwyedd Fflŷd a Chyfleusterau

Ydych chi’n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth?  Os felly, yna efallai mai’r swydd hon yw’r peth i chi.  Rydym yn chwilio am **Swyddog Cynaliadwyedd Fflŷd a Chyfleusterau** i ymuno â thîm cyffrous sy’n tyfu.

**Cyflog:** S4 (SCP 26-28) £34,834 - £36,648

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **un o’r lleoliadau isod:**
Bangor / Conwy / Helygain / Llandrindod / Y Drenewydd / Aberaeron

**Dyddiad cau:** 06/06/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Rydym yn chwilio am swyddog profiadol a brwdfrydig i gefnogi ACGChC i reoli a gweinyddu gweithgareddau fflŷd ar draws ei holl safle yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru.

Bydd y rôl yn cynnwys rheoli system tracio cerbydau sydd newydd ei chaffael, prynu ac adnewyddu cerbydau fflŷd a rheolaeth weithredol cerbydau.

Yn ogystal, bydd y rôl yn cefnogi'r Asiant i fonitro, dadansoddi ac adrodd ar holl ddata defnydd adnoddau naturiol a chostau Cyfleusterau'r Asiantaeth gyda'r bwriad o lywio mentrau yn y dyfodol i wella effeithlonrwydd, lleihau costau a chyrraedd targedau Sero Net 2030.

Bydd hefyd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gefnogi'r Asiant i reoli ei System Rheoli Ansawdd, cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a rheoli risg.



# Cyfrifoldebau

**Rheoli a Gweinyddu Fflyd**

**a) Rheoli System Tracio Cerbyd**

- Arwain ar y gwaith o ddatblygu, gan adrodd a'r defnydd o'r system tracio cerbyd.
- Bod y prif bwynt cyswllt rhwng yr Asiant a'r darparwr gwasanaeth tracio cerbyd.
- Arwain ar hyfforddi defnyddwyr newydd / presennol o'r system tracio cerbyd.
- Cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael o'r system tracio cerbyd

**b) Caffael Cerbyd Newydd**

- Arwain a rheoli'r rhaglen adnewyddu cerbyd, gan sicrhau bod gan yr asiant ddarpariaeth cerbyd addas i barhau i gyflawni gwasanaethau sydd wedi'u hadnabod yn y cytundeb gyda Llywodraeth Cymru (LlC).
- Amcangyfrif gofynion cyllideb ar gyfer adnewyddu cerbydau yn flynyddol
- Arwain ar y gwaith o adnabod cerbydau addas sy'n bodloni anghenion y busnes yn ogystal â gofynion strategol yr Asiantaeth a LlC i gyflawni targed sero net erbyn 2030.
- Arwain y broses o gaffael cerbydau newydd a gwaredu'r rhai sydd ddim eu hangen bellach.

**c) Rheolaeth Weithredol o Gerbydau**

- Sicrhau a threfnu bod cerbydau newydd eu caffael wedi'u gosod gyda marciau ac offer priodol pennod 8 ar gyfer eu defnyddio ar Gefnffyrdd yng Nghymru cyn eu defnyddio.
- Sicrhau bod fflyd yr Asiantaeth o gerbydau yn cael eu gweithredu yn unol â gofynion statudol ac arfer orau.

**Monitro Cynaliadwyedd Cyfleusterau**
Cefnogi, cynorthwyo a dirprwyo y Rheolwr Busnes, Ansawdd a Risg mewn monitro, dehongli ac adrodd ar holl ddefnydd adnodd naturiol cyfleusterau Asiantaeth a data costau gyda'r golwg i hysbysu mentrau y dyfodol i wella effeithlonrwydd, i leihau costau a bodloni targedau Sero Net 2030.

**Rheoli Ansawdd ac Adrodd ar Berfformiad**

- Cefnogi, cynorthwyo a dirprwyo pan fo angen i'r Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu ar faterion sy'n ymwneud â Rheoli Ansawdd ac Adrodd ar Berfformiad

**Diogelu Data**

- Cefnogi, cynorthwyo a dirprwyo pan fo angen i'r Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu ar faterion sy'n ymwneud â chydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data.

**Rhyddid Gwybodaeth**

- Cefnogi, cynorthwyo a dirprwyo pan fo angen i'r Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu ar faterion sy'n ymwneud â Deddf Rhyddid Gwybodaeth

**Rheoli Risg**
Cefnogi, cynorthwyo a dirprwyo'r Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â Rheoli Risg, pan fo'r angen.




## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i'r swydd

Yn gallu gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol.
Gallu i reoli llwyth gwaith eu hunain
Gallu ysgogi eraill.
Yn ymroddgar, yn frwdfrydig ac â'r gallu i gymell ei hun
Cyfathrebwr gwych
Yn drefnydd da

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Gradd neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol

## Profiad perthnasol

Profiad o weithio gyda systemau rheoli ansawdd a pherfformiad
Profiad o ddadansoddi data ac adrodd
Profiad o reoli cyllideb
Profiad o weinyddu busnes
Profiad mewn cysylltu gyda phartneriaid masnachol
Profiad o ymgymryd â Rôl Gweinyddwr o system TG.
Profiad o reoli / arwain prosiect

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Mae sgiliau dadansoddi data gwych a defnyddiwr medrus Excel, PowerBi a Chronfeydd data
Gallu cynhyrchu adroddiadau rheoli
Sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chyflwyno da.
Gwerthfawrogi'r math o gerbyd a fflyd sy'n cael ei ddefnyddio gan ACGChC a sydd angen eu bodloni ar gyfer cyflawni gwasanaeth.
Y gallu i gysylltu a chyflwyno gwaith i gydweithwyr ar bob lefel.
Sgiliau TG gwych
Ymwybyddiaeth o egwyddorion rheoli risg
Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch.

## Gofynion ieithyddol

Ar gyfer y swydd hon, mae'r gallu i gyfathrebu yn y Saesneg yn hanfodol ag y Gymraeg yn ddymunol

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 26 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.